Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Anhwylderau'r Sbectrum Awtistig

# Cynullun Cyflawni Interim 2015 - 2016

Ebrill 2015

## Anhwylderau’r Sbectrwm Awtistig

## Cynllun Cyflawni Interim 2015 - 2016

### Rhagair gan Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cymru oedd y genedl gyntaf yn y DU i fabwysiadu dull strategol o ymdrin ag awtistiaeth, a hynny drwy gyhoeddi Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Anhwylderau’r Sbectrwm Awtistig (ASD) yn 2008. Ers hynny, mae asiantaethau statudol a gwirfoddol wedi gweithio mewn partneriaeth â grwpiau o randdeiliaid i ddatblygu gwasanaethau lleol sydd wedi helpu i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau unigolion ag awtistiaeth, a’u rhieni a’u gofalwyr.


Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd hyd yma drwy ddiwygio’r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer ASD. Rwy’n ddiolchgar iawn i bawb sydd wedi rhoi sylwadau ar y blaenoriaethau i’w gweithredu, ac am y gwaith y mae’r Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid ASD yn ei wneud i droi’r blaenoriaethau’n gamau ymarferol y gallwn fwrw ymlaen â nhw.

O gofio ein bod mewn cyfnod o gyni parhaus lle mae galw cynyddol ar adnoddau cyhoeddus cyfyngedig, rhaid inni wneud rhagor i annog gwasanaethau cyhoeddus a theuluoedd i gydweithio i sicrhau bod y rhai y mae angen gofal a chymorth arnynt yn cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i fyw bywydau llawn ac ystyrlon.

Yn y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi cyflwyno newidiadau sylweddol i ddeddfwriaeth a pholisïau a fydd yn cael effaith ar bobl anabl, sy’n cynnwys unigolion ag awtistiaeth. Bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), a ddaw i rym ym mis Ebrill 2016, yn gweddnewid sut y bydd pobl yn cael gwasanaethau gofal cymdeithasol yn y dyfodol, gan roi mwy o lais a rheolaeth iddynt dros y gofal a’r cymorth a gânt, a bydd yn rhoi hawliau newydd i ofalwyr i’w helpu i barhau yn eu rôl hanfodol. Rydym hefyd yn diwygio’r polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol i sicrhau ein bod yn diwallu anghenion holl ddysgwyr Cymru ac rydym am wneud rhagor i wella canlyniadau mwy hirdymor pobl ifanc drwy greu rhagor o gyfleoedd o ran hyfforddiant a gwaith drwy ein Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid.

Gan ein bod mewn cyfnod lle mae pethau’n newid mor gyflym, mae rhanddeiliaid wedi dweud wrthyf y dylem fwrw ymlaen i weithredu’r blaenoriaethau mwyaf

allweddol cyn gynted â phosibl, a chaniatáu mwy o amser i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Strategol diwygiedig ar gyfer ASD drwy ddulliau strategol. Mae'r cynllun cyflawni interim hwn, felly, yn esbonio'r hyn rydym am ei gyflawni dros y 12 mis nesaf. Caiff y canlyniadau eu hystyried wrth benderfynu ar ein hamcanion mwy hirdymor. Rwyf hefyd am sicrhau bod pobl ag awtistiaeth, ynghyd â'u rhieni a'u gofalwyr, yn cyfrannu at ein cynlluniau a'u bod yn cymryd rhan flaenllaw yn y gwaith o lywio gwasanaethau a chymorth yn y dyfodol. Byddwn yn siarad yn uniongyrchol â grwpiau o randdeiliaid dros y 12 mis nesaf i gael eu barn nhw am yr agweddau y dylem ganolbwyntio arnynt yn ystod y blynyddoedd nesaf.



**Mark Drakeford AC**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig**

**Cynllun Cyflawni Interim 2015 - 2016**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|
| Cyflwyniad | 5 |
| Beth rydym wedi'i gyflawni hyd yma? | 5 |
| Nod y Cynllun Cyflawni Interim | 6 |
| Y Camau Nesaf | 7 |
| Camau 2015 - 16 | 8 |

**Atodiadau**

Un - Aelodau allanol o'r Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid ASD 12

Dau - Crynodeb o'r hyn y mae'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer ASD wedi'i gyflawni 13

## Cyflwyniad

Mae'r Cynllun Cyflawni Interim ar gyfer ASD yn esbonio'r camau y byddwn yn eu cymryd i weithredu'r blaenoriaethau mwyaf allweddol, ym marn rhanddeiliaid, ac i gyflawni'r ymrwymiadau a wnaed eisoes i wella gwasanaethau ac i helpu pobl ag awtistiaeth. Dros y ddeuddeg mis nesaf, byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid i roi'r camau hyn ar waith a byddwn yn ystyried sut y gall y canlyniadau y byddwn yn eu sicrhau gyfrannu at y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Strategol diwygiedig mwy hirdymor ar gyfer ASD, a gaiff ei gyhoeddi yn ystod 2016.

Mae'r Grŵp Rhanddeiliaid ASD wedi cynnig cyngor ac arweiniad ynghylch y camau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cyflawni Interim ar gyfer ASD a bydd y Grŵp yn parhau i weithio ar y cyd dros y flwyddyn nesaf i roi cyngor ynghylch cyfeiriad y cynllun gweithredu diwygiedig yn y dyfodol. Gellir gweld rhestr o aelodau allanol o'r grŵp rhanddeiliaid hwn yn atodiad un.

## Beth rydym wedi'i gyflawni hyd yma?

Cyhoeddwyd y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer ASD yn 2008, ac ers hynny mae'r sefyllfa wedi gwella'n arw ac mae pobl ag Awtistiaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr, yn cael cymorth a gwasanaethau ychwanegol. Dyma'r newidiadau mwyaf arwyddocaol:

- sefydlu seilwaith ASD yn yr holl awdurdodau lleol a dynodi Arweinwyr ASD, grwpiau o randdeiliaid a chynlluniau gweithredu;
- gwella ein dealltwriaeth o anghenion plant, pobl ifanc ac oedolion ag awtistiaeth drwy gomisiynu gwaith ymchwil annibynnol sy'n cynnwys gwasanaethau diagnostig i blant; canlyniadau cyflogaeth i bobl ifanc ag ASD ac anghenion pobl hŷn ag awtistiaeth;
- cynorthwyo i ddatblygu Canolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru a Chadair mewn Awtistiaeth ym Mhrifysgol Caerdydd;
- sefydlu'r Prosiect Cymorth Monitro Cymunedol sy'n gweithredu ar hyd a lled Cymru i gynorthwyo oedolion sydd â Syndrom Asperger ac Awtistiaeth Gweithredu Lefel Uchel;
- ariannu amrywiaeth eang o brosiectau arloesol, bach i ddiwallu anghenion lleol;
- cyflwyno rôl Cennad Cyflogaeth ASD i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth ymhlith cyflogwr mawr Cymru;
- sefydlu Rhwydwaith Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig Cyn/Ar Ôl Diagnosis ar gyfer Oedolion Cymru er mwyn datblygu gwasanaethau diagnostig a gwasanaethau cymorth i oedolion;
- codi ymwybyddiaeth o awtistiaeth drwy ddarparu cyngor a hyfforddiant i bobl ag awtistiaeth, eu rhieni a'u gofalwyr;

- darparu hyfforddiant a chyngor i amrywiaeth eang o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd;
- darparu adnodd ASD ar-lein ar wefan www.asdinfowales.co.uk.

Mae rhagor o wybodaeth am y prif fentrau i'w cael yn atodiad dau.

Yn 2012, aethom ati i gomisiynu gwaith gwerthuso annibynnol mewn perthynas â'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer ASD ac mae'r adroddiadau interim wedi'n helpu i nodi'r hyn a gyflawnwyd, y gwersi a ddysgwyd a sut y gellir gwella yn y dyfodol. Byddwn yn cyhoeddi'r adroddiad gwerthuso yn ystod 2015 a chaiff y casgliadau eu defnyddio i ddatblygu'r cynllun gweithredu diwygiedig ar gyfer ASD.

## Nod y Cynllun Cyflawni Interim

Dros y deuddeg mis diwethaf, mae'r Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid ASD wedi cydweithio i ddarparu cyngor ac arweiniad ynghylch y blaenoriaethau i'w gweithredu yn y dyfodol. Mae wedi bod yn gyfnod o newid sylweddol o ran datblygu deddfwriaeth a pholisïau a allai effeithio ar fywydau pobl ag awtistiaeth a'u teuluoedd. Gan nad yw effaith yr holl newidiadau hyn yn amlwg eto, dywedodd y Grŵp Rhanddeiliaid ASD fod angen rhagor o amser arnom i ystyried eu heffaith bosibl er mwyn inni fedru datblygu cynllun gweithredu diwygiedig hirdymor sy'n ystyried y ffyrdd newydd o weithio sy'n cael eu sefydlu.

Mae'r newidiadau a gaiff yr effaith fwyaf sylweddol, o bosibl, yn cynnwys Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a ddaw i rym ym mis Ebrill 2016, a diwygio Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd hefyd yn gofyn am ddeddfwriaeth newydd. Yn 2016 byddwn hefyd yn ail-lansio'r grantiau a roddwn i gyrff yn y sector gwirfoddol i gefnogi'r gwasanaethau cymdeithasol. Bydd modd i grwpiau yn y sector gwirfoddol ymgeisio am y Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy newydd, ac mae'r grwpiau hyn yn cynnwys elusennau sy'n cynorthwyo pobl ag awtistiaeth. Mae cynlluniau ar y gweill hefyd i ad-drefnu llywodraeth leol yng Nghymru, a chynnig i leihau nifer y cynghorau lleol, a gall hyn effeithio ar wasanaethau lleol. Y tu allan i Gymru, mae'n debygol y bydd newidiadau yn y meini prawf a gaiff eu cydnabod yn rhyngwladol fel offeryn diagnostig ym maes awtistiaeth (ICD10) a gall hyn effeithio rhywfaint ar arfer diagnostig yn y dyfodol.

Mae'r Cynllun Cyflawni Interim ar gyfer ASD yn esbonio sut y byddwn yn hybu gwasanaethau awtistiaeth dros y flwyddyn nesaf, a sut y byddwn yn gweithio i hybu'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Strategol diwygiedig ar gyfer ASD yn 2016.

Dyma'r blaenoriaethau y nododd rhanddeiliaid y mae angen eu gweithredu ar unwaith:

- ceisio gwella gwasanaethau diagnostig i blant ac oedolion;
- nodi anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu a datblygu gwasanaethau cymorth cynaliadwy;
- codi ymwybyddiaeth o awtistiaeth drwy ddarparu gwybodaeth a chyngor arbenigol;
- datblygu a chyflwyno hyfforddiant o safon uchel i grwpiau proffesiynol allweddol sy'n cynorthwyo pobl ag awtistiaeth;
- ceisio gwella addysg, cyfleoedd gwaith a hyfforddiant i gynorthwyo pobl ag awtistiaeth;
- sicrhau ein bod yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ynghylch blaenoriaethau i'w gweithredu yn y dyfodol;
- cwblhau'r Cynllun Gweithredu Strategol diwygiedig ar gyfer ASD.

I sicrhau ein bod yn ystyried anghenion penodol plant, siaradwyr Cymraeg a grwpiau sy'n cael eu diogelu gan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, rydym wedi dechrau'r asesiadau o effaith rheoleiddiol perthnasol fel Asesiadau o Effaith ar Gydraddoldeb, Asesiadau o Effaith ar Hawliau Plant ac Asesiadau o Effaith ar y Gymraeg. Byddwn yn cwblhau'r holl asesiadau o effaith angenrheidiol cyn cyhoeddi'r Cynllun Gweithredu Strategol diwygiedig ar gyfer ASD.

## Y camau nesaf

Caiff y Cynllun Cyflawni Interim ar gyfer ASD ei weithredu o fis Ebrill 2015 ymlaen a bydd angen i'r holl asiantaethau sy'n cynorthwyo pobl ag awtistiaeth barhau i weithio mewn partneriaeth, gan gynnwys y sector gwirfoddol. Bydd y gwaith a wneir dros y flwyddyn nesaf yn helpu i lywio'r strategaeth ddiwygiedig yn y dyfodol a chaiff hyn ei ystyried ochr yn ochr â'r newidiadau arfaethedig ym mholisïau a deddfwriaeth y llywodraeth. Mae'n bwysig ein bod yn clywed yn uniongyrchol gan bobl ag awtistiaeth, ynghyd â'u rhieni a'u gofalwyr. Byddwn yn cynnal rhagor o ddigwyddiadau i randdeiliaid i geisio barn unigolion am y modd y dylid datblygu'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer ASD ac am y modd y gellir gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i wella bywydau pobl ag awtistiaeth, eu teuluoedd a'u gofalwyr.

## Cynllun Cyflawni Interim Camau 2015 - 2016

| Camau | Cyfrifoldeb | Erbyn pryd? |
|---|---|---|
| **Cam un – sicrhau bod gwasanaethau diagnostig ym maes ASD i blant, pobl ifanc ac oedolion yn gwella drwy:**<br><br>Sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Diagnostig a fydd yn:<br>• darparu cyngor arbenigol ynghylch gwella gwasanaethau diagnostig a lleihau amseroedd aros.<br>• cyfrannu a chynghori ynghylch arfer mapio mewn perthynas â'r gwasanaethau ASD presennol drwy'r sector cyhoeddus, a'u cymharu â chanllawiau NICE ar atgyfeirio, asesu a rhoi diagnosis i bobl ag awtistiaeth.<br><br>Parhau i hybu Cymuned Ymarfer y Rhwydwaith Diagnostig Cyn ac Ar ôl Cwnsela i Oedolion ag ASD, i wella dulliau o gydweithredu ac i rannu arfer da o ran gwasanaethau diagnostig a chymorth i oedolion. | Bydd Llywodraeth Cymru yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i gytuno ar flaenoriaethau i'w gweithredu a bydd yn gweithio mewn partneriaeth â chyrff yn y sectorau statudol a gwirfoddol. | O fis Ebrill 2015 ymlaen, a chaiff adroddiad terfynol ei baratoi erbyn mis Ionawr 2016.<br><br>Bydd y rhwydwaith yn paratoi adroddiad diweddaru bob mis. |
| **Cam dau – cynorthwyo plant ac oedolion ag awtistiaeth sydd ag anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu ar hyn o bryd drwy:**<br><br>Ddatblygu dulliau gwahanol o ddarparu gwasanaeth awtistiaeth integredig i nodi anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu a mynd i'r afael â'r bylchau mwyaf mewn gwasanaethau a chymorth.<br>Nodi'r bylchau yn y cymorth sydd ar gael gan yr holl | Llywodraeth Cymru gan weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau yn y sectorau statudol a gwirfoddol. | O fis Ebrill 2015 ymlaen – caiff adroddiad cynnydd ar ddatblygu dulliau integredig o weithio ei baratoi erbyn mis Ionawr 2016. |

| | | |
|---|---|---|
| wasanaethau i blant, pobl ifanc ac oedolion yn ystod cyfnodau pontio.<br><br>Parhau â'r Prosiect Monitro Cymunedol i gynorthwyo oedolion sydd ag anghenion nad ydynt yn cael eu diwallu ac ystyried sut y gellir datblygu'r rôl fel rhan o wasanaeth awtistiaeth integredig. | | Llywodraeth Cymru i gael adroddiad cynnydd bob chwe mis. |
| **Cam tri – sicrhau bod plant, pobl ifanc ac oedolion ag awtistiaeth, a gweithwyr proffesiynol sy'n eu cynorthwyo, yn cael y cyngor a'r wybodaeth briodol a chyfredol drwy:**<br><br>Barhau â rôl y Cydlynydd ASD Cenedlaethol er mwyn:<br><br>• rhoi cyngor arbenigol i gyrff yn y sectorau statudol a gwirfoddol ac i fod yn gyfrifol am y Rhwydwaith Gwella Dysgu ASD.<br><br>• cynnal a datblygu gwefan sy'n rhoi gwybodaeth am ASD, gan ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth cyfredol am ASD. | Llywodraeth Cymru gan weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau statudol a gwirfoddol. | O fis Ebrill 2015 ymlaen – caiff adroddiadau cynnydd eu paratoi bob chwe mis. |
| | | |

| | | |
|---|---|---|
| **Cam pedwar – codi ymwybyddiaeth a darparu hyfforddiant i bobl broffesiynol sy'n gweithio i gynorthwyo plant, pobl ifanc ac oedolion sydd ag awtistiaeth drwy:**<br><br>Ddatblygu pecynnau codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant i weithwyr proffesiynol gan gynnwys gweithwyr mewn ysgolion, meddygfeydd, timau anableddau dysgu a thimau iechyd meddwl.<br><br>Datblygu adnoddau ar gyfer gwefan ASD er mwyn darparu cyngor a chanllawiau dibynadwy i grwpiau proffesiynol. | Llywodraeth Cymru gan weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau statudol a gwirfoddol. | O fis Ebrill 2015 ymlaen - caiff pecynnau ac adnoddau hyfforddi eu datblygu yn ystod 2016. |
| **Cam pump - sicrhau bod anghenion addysg, hyfforddiant a chyflogaeth plant, pobl ifanc ac oedolion ag awtistiaeth yn cael eu diwallu drwy:**<br><br>Sicrhau bod deddfwriaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael ei diwygio drwy roi ystyriaeth lawn i anghenion penodol plant a phobl ifanc ag awtistiaeth, gan gynnwys y rhai sydd â chyflyrau eraill hefyd.<br><br>Gweithio mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru a darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith i sicrhau bod pobl ifanc ac oedolion ag awtistiaeth yn cael cymorth i ddod o hyd i gyfleoedd hyfforddiant a gwaith, ac i barhau i fanteisio arnynt.<br><br>Parhau i ddatblygu cynigion ar gyfer ail gylch y Cyfrifon Segur – a fydd yn canolbwyntio ar raglen cyflogadwyedd i bobl ifanc ag anableddau dysgu (gan gynnwys ASD). | Llywodraeth Cymru gan weithio mewn partneriaeth â Gyrfa Cymru a darparwyr Dysgu Seiliedig ar Waith. | O fis Ebrill 2015 ymlaen – caiff adroddiad cynnydd ei baratoi erbyn mis Ionawr 2016. |

| | | |
|---|---|---|
| Parhau â rôl y Cennad Cyflogaeth i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth ymhlith cwmnïau Cymru. | | Bydd y Cennad Cyflogaeth yn paratoi adroddiad cynnydd ddwywaith y flwyddyn. |
| **Cam chwech - datblygu Cynllun Gweithredu Strategol diwygiedig ar gyfer ASD fel dull hirdymor o gynorthwyo pobl ag awtistiaeth drwy:**<br><br>Sicrhau bod y Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid ASD yn parhau i lywio'r broses o ddatblygu'r cynllun gweithredu diwygiedig gan roi cyngor ynghylch gwella'r cymorth sydd ar gael yn ystod cyfnodau pontio.<br><br>Cyhoeddi adroddiadau gwerthuso annibynnol ar y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer ASD a cheisio barn am y modd y gellid mynd i'r afael â'r argymhellion ar gyfer newidiadau.<br><br>Ymgysylltu'n uniongyrchol â grwpiau o randdeiliaid lleol i gael eu sylwadau ar yr hyn y dylai'r Cynllun Gweithredu diwygiedig ganolbwyntio arno yn y dyfodol.<br><br>Monitro sut y mae awdurdodau lleol yn defnyddio'r grant seilwaith pan gaiff ei drosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw. | Llywodraeth Cymru gan weithio gyda'r Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid ASD. | Caiff y Cynllun Gweithredu Strategol diwygiedig ar gyfer ASD ei gyhoeddi erbyn 2016.<br><br>Caiff yr adroddiadau gwerthuso eu cyhoeddi erbyn haf 2015.<br><br>Cynhelir digwyddiadau ymgysylltu.<br><br>Llywodraeth Cymru i ofyn am adroddiadau diweddaru gan awdurdodau lleol erbyn mis Medi 2015. |

**Atodiad un**

## Aelodau allanol o'r Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid ASD

| **AELODAU ALLANOL** | | |
|---|---|---|
| Simon Burch | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br>Cyngor Sir Fynwy | O fis Medi 2013 – Gorffennaf 2014 |
| Jim Crowe | Cyfarwyddwr Anabledd Dysgu Cymru | O fis Medi 2013 – hyd yn hyn |
| Nadine Honeybone | Rhiant / Sylfaenydd y Cyfeirlyfr Awtistiaeth | O fis Medi 2013 – hyd yn hyn |
| Yr Athro Sue Leekam | Cyfarwyddwr Canolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru, Prifysgol Caerdydd | O fis Medi 2013 – hyd yn hyn |
| Robert Lloyd Griffiths | Cennad Cyflogaeth Awtistiaeth | O fis Medi 2013 – Tachwedd 2014 |
| Johanna Manikiza<br><br>Naomi Alleyne<br><br>Darrell Clarke | ASD – Cydlynydd Cenedlaethol CLILC<br>CLILC<br><br>Arweinydd ASD RCT | O fis Medi 2013 – Gorffennaf 2014<br>O fis Rhagfyr 2013 – hyd yn hyn<br>O fis Rhagfyr 2013 – Ebrill 2014 |
| Hugh Morgan OBE | Prif Weithredwr Awtistiaeth Cymru | O fis Medi 2013 – Mai 2014 |
| Joe Powell | Cyfarwyddwr Pobl yn Gyntaf Cymru | O fis Medi 2013 hyd yn hyn |
| Meleri Thomas | Rheolwr Materion Allanol Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth | O fis Medi 2013 hyd yn hyn |
| Kevin Tribble | Rheolwr Cyffredinol Gwasanaethau Plant a'r Glasoed, Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda | O fis Medi 2013 – Mai 2014 |
| Sundari Umapathy | Seiciatrydd Ymgynghorol Anableddau Deallusol, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan | O fis Medi 2013 hyd yn hyn |
| Dr David Williams | Cyfarwyddwr Clinigol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed, Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan | O fis Medi 2013 hyd yn hyn |
| Christine Griffiths | Pwyllgor Cynghorol Therapïau Cymru | O fis Rhagfyr 2013 – Gorffennaf 2014 |
| Jackie Elias | Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | O fis Ebrill 2014 hyn yn hyn |
| Bernard Boniface | Cyngor Sir Fynwy | O fis Gorffennaf 2014 hyn yn hyn |

**Atodiad dau**

## Crynodeb o'r hyn y mae'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer ASD wedi'i gyflawni:

### Y seilwaith ASD

Ers 2008, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi £40,000 i bob awdurdod lleol bob blwyddyn i sefydlu a chynnal seilwaith ASD drwy Gymru. Mae Arweinydd ASD dynodedig a grŵp o randdeiliaid amlasiantaeth ym mhob awdurdod lleol. Caiff y rhwydwaith gymorth gan y Cydlynydd ASD Cenedlaethol sy'n cynnal y Rhwydwaith Gwella Dysgu ASD, yn dwyn yr Arweinwyr ASD o bob rhan o Gymru ynghyd i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth ac i rannu mentrau rhannu arfer da. O 2015-16 ymlaen, bydd y grant hwn yn rhan o Grant Cynnal Refeniw yr awdurdodau lleol, sef prif ffynhonnell cyllid blynyddol yr awdurdodau lleol.

Cytunodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru i drosglwyddo'r grant, ac mae'r penderfyniad yn gyson â'r egwyddorion y cytunodd y ddau gorff arnynt o ran trosglwyddo grantiau penodol i'r setliad cyn gynted â phosibl. Bydd hefyd yn rhoi sicrwydd i awdurdodau lleol y bydd yr arian hwn ar gael o'r naill flwyddyn i'r llall.

Adeiladwyd seilwaith ASD presennol Cymru drwy gydweithredu a rhannu arfer da'n llwyddiannus. Mae'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ysgrifennu at bob awdurdod lleol i'w hannog i ystyried sut y mae eu hardaloedd wedi elwa o'r seilwaith ASD, a sut y gallent helpu i roi'r dyletswyddau newydd ar waith mewn perthynas â gwasanaethau ataliol fel rhan o'r broses o weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Byddwn yn parhau i gadw llygad ar y modd y defnyddir y grant seilwaith gan ein bod am sicrhau unigolion a theuluoedd nad yw'r buddsoddiad mewn gwasanaethau i bobl ag awtistiaeth wedi dioddef o ganlyniad i'r penderfyniad i drosglwyddo'r arian i'r Grant Cynnal Refeniw.

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi seilwaith yr awdurdodau lleol drwy ariannu swydd y Cydlynydd ASD Cenedlaethol sy'n darparu cyngor arbenigol, yn cynnal y Rhwydwaith Dysgu a Gwella ASD gan hyrwyddo dulliau o weithio ar y cyd a rhannu arfer da.

## Gwefan ASDinfoWales www.asdinfowales.co.uk

Y Cydlynydd ASD Cenedlaethol sy'n datblygu'r wefan hon a hynny'n bennaf ar gyfer y rhai sy'n gweithio gyda phlant ac oedolion ag awtistiaeth. Mae'n darparu gwybodaeth am wasanaethau lleol a'r adnoddau amrywiol a gynhyrchwyd o ganlyniad uniongyrchol i Gynllun Gweithredu Strategol Cymru ar gyfer ASD. Mae'r wefan hefyd yn cynnwys y cynllun i gynorthwyo cyflogwyr i godi ymwybyddiaeth o ASD yn y gweithle.

Ar y wefan mae nifer o adnoddau sydd wedi'u croesawu gan weithwyr proffesiynol a'r unigolion a'r teuluoedd y maent yn cydweithio â nhw. Dyma rai enghreifftiau:

- Awtistiaeth: Canllaw i Rieni a Gofalwyr yn dilyn Diagnosis;
- Adnoddau i oedolion ag ASD a'u gofalwyr;
- Cynlluniwr ASD – cymorth i gynllunio taith;
- Cynllun y waled oren;
- Adnoddau cyflogaeth;
- Fideos ASD i rieni a gofalwyr;
- Cyngor ynghylch ASD i weithwyr iechyd sylfaenol proffesiynol.

## Rhwydwaith Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig Cyn/Ar Ôl Diagnosis i Oedolion Cymru

Ers 2010, mae Llywodraeth Cymru wedi cynorthwyo'r Byrddau Iechyd Lleol i weithio ar y cyd i sicrhau cysondeb yn y modd y maent yn cynnig gwasanaethau diagnostig i oedolion ag awtistiaeth. Mae'r rhwydwaith wedi datblygu a chefnogi hyfforddiant diagnostig i glinigwyr ac yn cyfarfod yn rheolaidd i ddatblygu gwasanaethau a rhannu arfer da. Mae'r Rhwydwaith yn datblygu Cymuned Ymarfer i ddwyn arbenigwyr yn y maes ynghyd i rannu profiadau er mwyn datblygu gwasanaethau.

## Cennad Cyflogaeth ASD

Ers 2010 mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi swydd Cennad Cyflogaeth ASD. Cyflwynwyd y swydd i godi ymwybyddiaeth o awtistiaeth yn y gweithle, yn enwedig ymhlith cwmnïau angori mawr ac i annog cyflogwyr i ystyried y manteision sydd ynghlwm wrth gyflogi pobl ag awtistiaeth yn eu sefydliadau. Ail-benodwyd y Cennad yn ddiweddar a bydd yn canolbwyntio o'r newydd ar greu cysylltiadau da rhwng cyflogwyr a sefydliadau sy'n gallu cynnig cymorth arbenigol ym maes hyfforddiant a gwaith i'r unigolyn a'r cyflogwr.

**Atodiad dau**

## Prosiectau Monitro Cymunedol

Ers 2010, ariannwyd Prosiectau Monitro Cymunedol i ddarparu cymorth ychwanegol i oedolion â syndrom Asperger, yn enwedig y rhai nad ydynt yn gymwys i gael gwasanaethau gofal cymdeithasol o bosibl ond sydd ag anghenion sylweddol er hynny. Mae'r gweithwyr prosiect yn cynnig cefnogaeth, cymorth a chyngor i alluogi unigolion i lywio drwy wasanaethau cymhleth, ac maent hefyd yn eu cynorthwyo mewn agweddau eraill ar eu bywydau, fel materion gwaith. Yn ôl casgliadau dros dro'r adroddiadau gwerthuso annibynnol ar y Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer ASD, mae angen y math hwn o wasanaeth o hyd, a chaiff ei ystyried fel rhan o'r drafodaeth ynghylch creu gwasanaeth ASD integredig yn y dyfodol.

## Canolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru

Lansiwyd Canolfan Ymchwil Awtistiaeth Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd yn 2010 a rhoddodd Llywodraeth Cymru arian i'w datblygu, gan gynnwys cefnogi'r penderfyniad i sefydlu Cadair mewn Awtistiaeth, sef y gyntaf yn y DU.

Mae'r Ganolfan yn cynnal gwaith ymchwil i awtistiaeth ac mae wedi rhoi cyngor amhrisiadwy i Lywodraeth Cymru gan ei bod yn aelod o Grŵp Cynghori Rhanddeiliaid ASD. Mae hefyd wedi cynorthwyo Rhwydwaith Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig Cyn/Ar Ôl Diagnosis i Oedolion Cymru.